CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Yr Hen Lys
Sgwâr Sant Pedr
RHUTHUN
LL15 1AA
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

The Old Courthouse
St. Peter's Square
RUTHIN
LL15 1AA
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

19 Ionawr 2021

At Faer a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal ar-lein trwy gyfrwng Zoom **NOS LUN, 25 IONAWR 2021** am **7:00p.m**. Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgan buddiannau personol ac arianool yn yr eitemau busnes a restrir isod.

3. **PROSIECT ARFAETHEDIG ADFER CLOC Y DREF**
   Derbyn cyflwyniad gan Robert Price a Fiona Gale ynghylch adferiad arfaethedig cofeb Joseph Peers ar Sgwâr Sant Pedr.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**

7. **COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
   Derbyn a chadarnhau fod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2020 yn gywir.

8. **MATERION YN CODI**

9. **COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
   Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021.

10. **COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
    Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021.

11. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS
Derbyn diweddariad ynghylch yr Hen Lys, ac ystyried cais Rheolwr yr Hen Lys i ymestyn ei chyfnod cwtogi oriau gwaith am dri mis arall.

12. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU
Derbyn diweddariad ynghylch prosiect Felodrom Gogledd Cymru.

13. PROSIECT BWS BENTHYG
Derbyn hysbysiad fod Cyngor Tref Llangollen wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r prosiect a thrafod y camau nesaf.

14. CYLCH GWAITH ARFAETHEDIG PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS
Ystyried cylch gwaith arfaethedig ar gyfer Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys.

15. AELODAETH PWYLLGORAU
Cadarnhau aelodaeth pwyllgorau ac is-bwyllgorau Cyngor Tref Rhuthun.

16. CYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL
Ystyried a chadarnhau cynrychiolwyr y Cyngor Tref ar gyrff allanol.

17. SEDDI GWAG AR Y CYNGOR TREF
Derbyn gwybodaeth ynghylch seddi gwag ar y Cyngor Tref a'r weithdrefn ar gyfer llenwi seddi gwag.

18. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL
Ystyried cais am gymorth ariannol gan Fenter Iaith Sir Ddinbych.

19. CEISIADAU AM LYTHYRAU CEFNOGAETH
Ystyried ceisiadau am lythyr cefnogaeth gan:
Marchnadoedd Artisan Rhuthun
Pwyllgor Cymdeithas Trigolion Parc Seren

20. ADNEWYDDU YSWIRIANT
Ystyried adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor Tref gyda Zurich am yr ail flwyddyn mewn cytundeb pum mlynedd.

21. CEFNOGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH
Ystyried uwchraddio tanysgrifiad Zoom y Cyngor Tref i alluogi darprau cyfleuster dwy sianel ar gyfer cyfieithu ar y pryd a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar anghenion Technoleg Gwybodaeth ehangach y Cyngor, yn cynnwys pecyn cynnal a chadw a chefnogaeth barhaus.

22. CYLLIDEB AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020-21
Ystyried a chytuno ar gyllideb a phraesept Cyngor Tref Rhuthun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

23. DATGANIAD ARIANNOL
Derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2020.

24. CYFRIFON I'W TALU
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:
O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Tachwedd a Rhagfyr 2020	*	£180.00
OB	Canda Copying Ltd	Llogi'r peiriant argraffu a chopïau isafswm	*	£41.90
OB	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£11.03
OB	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£1.28
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol – Ionawr		£560.03
BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a thanysgrifiad Sage - Ionawr	*	£92.40
OB	KMT Electrical	Gosod goleuadau LED ar y goeden Nadolig	*	£576.00
OB	KMT Electrical	Tynnu'r goleuadau LED oddi ar y goeden Nadolig	*	£582.00
OB	IT Williams Ltd	Llogi lori Hiab a gyrrwr i osod y goeden Nadolig – llogi lori Hiab a gyrrwr i dynnu'r goeden ymaith a'i gwaredu – am ddim	*	£312.00
OB	Dave Snape	Tanysgrifiad Microsoft Office 365 – Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2020	*	£56.88

(Mae'r eitemau uchod wedi'u dynodi gyda * yn cynnwys TAW adferadwy o £293.88)

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Scottish Power	Costau trydan yr Hen Lys, 07.09.20 – 18.12.20	*	£148.81
OB	Ruthin Decor	Eitemau i'r Hen Lys	*	£12.14
OB	Richard Williams	Pren ar gyfer yr Hen Lys	*	£12.29

(Mae'r eitemau uchod wedi'u dynodi gyda * yn cynnwys TAW adferadwy o £22.36)

RHAN DAU

25. COD YMDDYGIAD

Ystyried materion diweddar yn ymwneud â Chod Ymddygiad Cynghorwyr.

26. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 22 Chwefror 2021 am 7.00pm.